

Fframwaith cyffredin dros dro: lechyd a lles anifeiliaid Papur briffio

Awst 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7571**

E-bost: **Lucy.Valsamidis@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#)** | **[Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Fframwaith cyffredin dros dro: lechyd a lles anifeiliaid

Papur briffio

Awst 2022

Awduron:

Lucy Valsamidis a Sara Moran



Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig y **fframwaith cyffredin dros dro ar iechyd a lles anifeiliaid**.

Mae fframweithiau cyffredin yn gytundebau rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ar sut i gydweithio a rheoli gwahaniaethau mewn meysydd a lywodraethwyd neu a gydgylltwyd yn flaenorol ar lefel yr UE.

Mae'r llywodraethau'n cyhoeddi fframweithiau cyffredin ar ffurf dros dro er mwyn craffu arnynt. Mae **Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd yn cynnal gwaith craffu** ar y fframwaith cyffredin dros dro ar iechyd a lles anifeiliaid.

Yn dilyn gwaith craffu seneddol, bwriad y llywodraethau yw ymateb i argymhellion a chytuno ar fersiwn derfynol o'r fframwaith cyffredin.

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o'r fframwaith dros dro.

Cynnwys

Crynodeb	1
1. Cefndir.....	2
Deddfwriaeth.....	2
Rhwymedigaethau rhyngwladol a'r DU-UE.....	5
2. Y fframwaith cyffredin	7
Egwyddorion fframweithiau cyffredin	8
Egwyddorion ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid	8
Cwmpas	9
3. Cydweithio.....	10
Rolau a chyfrifoldebau	10
Rhannu tystiolaeth a cheisio barn	11
4. Rheoli ymwahanu.....	12
Gwneud penderfyniadau am ymwahanu.....	12
Rheoli effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU.....	12
Rheoli ymwahanu o'r UE a Gogledd Iwerddon	13

5. Rheoli'r rhwymedigaethau rhyngwladol	15
Sefydliad Masnach y Byd	15
Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu	16
Cytundebau masnach rhyngwladol.....	16
6. Osgoi a datrys anghydfodau	17
7. Monitro, adolygu a diwygio.....	18
8. Tryloywder ac atebolrwydd	18

Crynodeb

Mae'r fframwaith cyffredin dros dro ar iechyd a lles anifeiliaid yn nodi sut y bydd llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig yn cydweithio ac yn gwneud penderfyniadau am gyfraith iechyd a lles anifeiliaid gan fod y DU bellach wedi gadael yr UE. Mae ansawdd gwaith drafftio'r fframwaith wedi cael ei feirniadu gan Bwyllgor Craffu Tŷ'r Arglwyddi ar Fframweithiau Cyffredin.

Mae'r fframwaith yn ymrwmo'r llywodraethau i gydweithio ar bob cyfraith iechyd a lles anifeiliaid, nid dim ond cyfraith yr UE a ddargedwir. Bydd y llywodraethau'n trafod y newidiadau i'r gyfraith a pholisïau ac yn cytuno arnynt. Maent hefyd yn cytuno i beidio â gwyro oddi wrth safonau sylfaenol mewn modd sy'n niweidiol i fioddlogelwch, lles neu farchnad fewnol y DU ar draws meysydd polisi perthnasol. Mae'r fframwaith hefyd yn darparu i'r llywodraethau ystyried unrhyw oblygiadau sy'n deillio o fasnach ryngwladol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ei weithredu.

Rhan o ddiben y fframwaith cyffredin yw sicrhau gweithrediad marchnad fewnol y DU. Bwriad yr egwyddorion mynediad i'r farchnad yn Neddf Marchned Fewnol y DU 2020 yw sicrhau (yn gyffredinol) y gellir gwerthu neu awdurdodi nwyddau a gwasanaethau a gaiff eu gwerthu neu eu hawdurdodi mewn un rhan o'r DU mewn rhan arall. Gallai hyn gyfyngu ar effaith newidiadau i gyfraith Cymru ar iechyd a lles anifeiliaid. Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith yn cyfeirio at y Ddeddf na'r broses ar gyfer cytuno ar eithriadau o'r Ddeddf.

Drwy'r fframwaith, bydd y llywodraethau yn ceisio cytuno a ddylid mabwysiadu'r un agwedd at gyfraith a pholisi ynteu a ddylid ymwahanu. Os na fydd y llywodraethau'n cytuno a ddylid mabwysiadu'r un dull neu ddilyn trywydd gwahanol, byddant yn ceisio datrys yr anghydfod ar y lefel isaf bosibl. Yna bydd modd iddynt drosglwyddo'r anghydfod i uwch-swyddogion ac i Weinidogion.

Mae'r llywodraethau wedi cytuno mewn egwyddor i adrodd yn rheolaidd i'r seneddau ar fframweithiau cyffredin. Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith yn cynnwys gofyniad i'r llywodraethau roi'r wybodaeth ddiweddaraf i seneddau a rhanddeiliaid am sut mae'n gweithio, na chynnwys seneddau a rhanddeiliaid yn y broses o adolygu a diwygio'r fframwaith. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwmo'n unochrog i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar fframweithiau cyffredin ac i ymgynghori â'r Senedd a rhanddeiliaid wrth adolygu a diwygio.

1. Cefndir

Nod cyfreithiau iechyd a lles anifeiliaid yn yr UE yw sicrhau safonau uchel, diogelu iechyd anifeiliaid a phobl, a galluogi masnach. Mae'n sefydlu egwyddorion cyffredinol ac yn gosod rheolau penodol mewn rhai meysydd.

Mae aelod-wladwriaethau'r UE yn ystyried cynigion deddfwriaethol ar iechyd a lles anifeiliaid yn y **Y Pwyllgor Sefydlog ar Blanhigion, Anifeiliaid, Bwyd a Bwyd Anifeiliaid** ac yn pleidleisio arnynt. Aelod-wladwriaethau sy'n gyfrifol am weithredu cyfraith yr UE. Gallant hefyd osod rheolau llymach, ar yr amod eu bod yn gydnaws â chyfreithiau'r UE. Y Comisiwn Ewropeaidd sy'n monitro cydymffurfiaeth â chyfraith yr UE.

Gan fod y DU bellach wedi ymadael â'r UE, mae'r rhan fwyaf o gyfraith yr UE **wedi'i dargadw mewn cyfraith ddomestig**. Mae swyddogaethau a phwerau wedi'u trosglwyddo o sefydliadau'r UE i awdurdodau domestig. Mae goruchwyliaeth y Comisiwn Ewropeaidd wedi dod i ben, gydag eithriadau ar gyfer trefniadau yng Ngogledd Iwerddon. Gall Llywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU wneud newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir ar iechyd a lles anifeiliaid o fewn eu cymhwysedd. Rhaid i Ogledd Iwerddon **barhau i ddilyn** cyfraith yr UE o ran iechyd a lles anifeiliaid o dan Brothocol Gogledd Iwerddon.

Mae'n rhaid i'r DU hefyd gydymffurfio â'i rhwymedigaethau rhyngwladol, gan gynnwys safonau rhyngwladol, cytundebau newydd rhwng y DU a'r UE, a chytundebau masnach rydd.

Deddfwriaeth

Mae iechyd a lles anifeiliaid yn faes cyfraith a pholisi eang iawn. Mae'r rhan fwyaf wedi datganoli. Mae Atodiad 1 i'r fframwaith yn rhoi trosolwg o gyfraith yr UE a ddargedwir o ran cwmpas y fframwaith.

Fodd bynnag, mae'r fframwaith yn nodi **nad** yw'r Atodiad yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o'r holl ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid; ac nid yw ychwaith yn cwmpasu deddfwriaeth ddomestig.

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o brif feysydd y ddeddfwriaeth hon ac yn nodi newidiadau allweddol ers diwedd y cyfnod pontio.

Masnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion cysylltiedig

Mae cyfraith yr UE ar fasnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion cysylltiedig yn cynnwys mewnfario a chludo anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, gan bennu gofynion ar gyfer archwiliadau milfeddygol ac ardystio ar gyfer anifeiliaid a chynhyrchion a gaiff eu mewnfario o drydydd gwledydd i'r UE.

Mae cyfraith yr UE a ddargedwir (fel y'i diwygiwyd) bellach yn darparu ar gyfer awdurdodau domestig i gynnal gwiriadau ar fewnforion anifeiliaid i Brydain ac allforion ohoni. Mae gwiriadau ar **fewnforion** anifeiliaid o'r UE a Gogledd Iwerddon ac **allforion** i'r UE a Gogledd Iwerddon yn cael eu cyflwyno'n raddol.

Yn 2021, **nododd Llywodraeth y DU hefyd gynlluniau** i gyfyngu ar fewnfario cynhyrchion anifeiliaid penodol mewn Bil Anifeiliaid Tramor arfaethedig, gan gynnwys troffiau hela o anifeiliaid sydd mewn perygl.

Diogelu lles anifeiliaid

Mae cyfraith yr UE yn gosod safonau ar gyfer lles anifeiliaid. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys gofynion ar gyfer amodau lles mewn **canolfannau rheoli** (i anifeiliaid gael eu bwydo a'u dyfrio yn ystod teithiau hir); amodau **wrth eu cludo**; ac arbed anifeiliaid rhag poen, trallod neu ddioddefaint diangen **adeg eu lladd**.

Mae gofynion lles anifeiliaid wedi'u dargadw mewn cyfraith ddomestig ar ôl diwedd y cyfnod pontio, gyda rhai swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo i awdurdodau domestig.

Mae **Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)** Llywodraeth y DU yn nodi ystod o fesurau newydd ar les anifeiliaid. Fel rhan o hyn, bydd yn gwahardd allforio anifeiliaid byw o Brydain i'w lladd. Bydd y Bil hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, yr Alban a'r DU ddiwygio neu ddirymu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir, wrth ddefnyddio'r pwerau presennol.

Ar wahân, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cynlluniau ar gyfer newidiadau i gyfraith lles anifeiliaid fel rhan o'i **Chynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021-26**, gan gynnwys cynlluniau i ddatblygu "model cenedlaethol" ar gyfer trwyddedu a rheoleiddio sefydliadau sy'n canolbwyntio ar anifeiliaid a gedwir.

Adnabod ac olrhain anifeiliaid

Mae cyfraith yr UE yn pennu gofynion adnabod ac olrhain ar gyfer da byw. **Nod hyn yw cefnogi'r** gwaith o reoli clefydau anifeiliaid ac olrhain cynhyrchion anifeiliaid am

resymau iechyd y cyhoedd.

Mae llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig wrthi'n gwneud newidiadau i gyfraith ddomestig a chyfraith yr UE a ddargedwir ar adnabod da byw.

Yn 2021-22, bu Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar **Newidiadau i Drefniadau Adnabod, Cofrestru ac Adrodd ar Symudiadau Da Byw**. Ei nod yw cysoni rhai o'r rheolau adrodd ar symudiadau a chofrestru da byw o bob math.

Rheoli clefydau anifeiliaid

Mae gan yr UE **System Gwybodaeth am Glefydau Anifeiliaid** er mwyn gallu hysbysu a rhannu gwybodaeth am achosion o glefydau. Nid oes gan y DU fynediad i'r system hon mwyach. Mae cyfraith yr UE hefyd yn nodi rheolau ar gyfer atal a rheoli rhai clefydau anifeiliaid, gan gynnwys fflw adar, enseffalopathi sbyngffurf buchol (BSE) a chlwy'r traed a'r genau.

Yn gyffredinol, mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn cadw gofynion rheoli clefydau. Mae'n trosglwyddo rhai swyddogaethau o'r Comisiwn Ewropeaidd i awdurdodau domestig ac yn dileu'r gofynion i awdurdodau domestig adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Yn 2020, nododd Llywodraeth Cymru rai **cynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd i reoli clefydau anifeiliaid** yn ei hymgyngoriad ar y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) arfaethedig.

Teithio anfasnachol anifeiliaid

Mae **cynllun teithio anifeiliaid anwes yr UE** yn galluogi perchnogion cŵn, cathod a ffuredau i deithio gyda'u hanifeiliaid anwes o fewn yr UE ac mewn trydydd gwledydd dethol heb fawr o darfu. Nid yw'r DU bellach yn rhan o gynllun teithio anifeiliaid anwes yr UE.

Mae **Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)** Llywodraeth y DU yn nodi rhai newidiadau i gyfraith yr UE a chyfraith ddomestig a ddargedwir ar symud anifeiliaid yn anfasnachol i Brydain Fawr.

Cymwysterau proffesiynol

Mae trefniadau rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd / y Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd yn caniatáu i bobl sydd â chymwysterau proffesiynol penodol, gan gynnwys **milfeddygon a phedolwyr** symud yn rhydd

ledled yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ac yn cydnabod cymwysterau'r bobl hyn.

Nid yw hyn yn berthnasol yn y DU mwyach. Mae rheoleiddio'r proffesiwn milfeddygol wedi'i gadw yn ôl, ond nid yw hyn yn wir am reoleiddio'r proffesiwn pedolwyr.

Mae **Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022** yn gosod system newydd ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd dramor. **Gwrthododd y Senedd gydsyniad** i'r ddeddfwriaeth hon.

Adolygiad Llywodraeth y DU o gyfraith yr UE a ddargedwir

Mae **Llywodraeth y DU wedi nodi cynlluniau** i gyflwyno Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (neu "Fil Rhyddid yn sgil Brexit") i'w gwneud yn haws newid neu ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir a dileu'r statws arbennig sydd ganddi yng nghyfraith y DU. Gallai hyn arwain at ddileu neu newid safonau presennol mewn cyfraith ddomestig.

Mae **Llywodraeth y DU wedi dweud** na fydd yn ceisio gwneud newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir o fewn Fframweithiau Cyffredin heb ddilyn y prosesau y cytunwyd arnynt gan weinidogion ym mhob fframwaith.

Dywedodd Mick Antoniw AS y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, na ddylid rhanddirymu o'r safonau rydym yn eu dilyn, a bod Llywodraeth Cymru am wella safonau yng Nghymru lle mae'n gallu, mewn meysydd cyfrifoldeb datganoledig.

Rhwymedigaethau rhyngwladol a'r DU-UE

Mae'r DU wedi ymgymryd â rhwymedigaethau rhyngwladol newydd ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am negodi rhwymedigaethau rhyngwladol, a'r **llywodraethau datganoledig sy'n gyfrifol am eu dilyn a'u gweithredu** lle maent yn dod o fewn eu cymhwysedd.

Rhwymedigaethau rhyngwladol

Sefydliad Masnach y Byd

Mae **Cytundeb Mesurau Iechydol a Ffytoiechydol (SPS) Sefydliad Masnach y Byd** yn annog gwladwriaethau i sefydlu mesurau iechydol a ffytoiechydol (SPS) sy'n gyson â safonau rhyngwladol.

Aelodau Sefydliad Masnach y Byd yn trafod gweithredu'r Cytundeb SPS ym **Mhwyllgor SPS Sefydliad Masnach y Byd**. Mae Llywodraeth y DU wedi cymryd y cyfrifoldeb dros gynrychioli'r DU ym Mhwyllgor SPS y Sefydliad.

Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd

Mae **Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd** yn sefydliad rhyngwladol sy'n ceisio diogelu iechyd anifeiliaid a sicrhau masnach ddiogel a theg mewn anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid. Llywodraeth y DU sy'n cynrychioli'r DU yn Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd.

Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd sy'n cyhoeddi safonau iechyd anifeiliaid byd-eang ar gyfer masnach ryngwladol. Mae'n gweithredu fel safonau cyfeirio i Aelodau Sefydliad Masnach y Byd i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan Cytundeb SPS Sefydliad Masnach y Byd.

Rhwymedigaethau'r DU-UE

Y Cytundeb Ymadael: Protocol Gogledd Iwerddon

O dan y Protocol, mae rhywfaint o gyfraith yr UE yn parhau i fod yn gymwys i Ogledd Iwerddon ac yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid.

Mae gan y Protocol oblygiadau o ran masnachu mewn anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain:

- ar gyfer nwyddau sy'n symud o Brydain i Ogledd Iwerddon, mae cyfraith berthnasol yr UE yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon; ac
- ar gyfer nwyddau sy'n symud o Ogledd Iwerddon i Brydain, mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau **mynediad dilyffethair** rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr yn golygu y gall nwyddau cymwys symud yn rhydd ar y cyfan, gydag ambell eithriad.

Y prif fforwm ar gyfer trafod gweithredu'r Protocol yw **Cyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael** a'i Bwyllgor Arbenigol ar Brotocol Gogledd Iwerddon. Ers iddo ddod i rym, mae'r Protocol wedi bod yn destun **sawl anghydfod rhwng y DU a'r UE**.

Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Mae Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE (y Cytundeb) yn cynnwys darpariaethau SPS a **darpariaethau tegwch**, sy'n berthnasol i faes amaethyddiaeth.

Mae darpariaethau tegwch yn y farchnad yn berthnasol er mwyn rheoli effeithiau cynhyrchu amaethyddol neu gynhyrchu bwyd ar yr amgylchedd, yn enwedig drwy ddefnyddio cynnyrch gwrthfotigau a dadhalogi.

Mae'r Cytundeb yn sefydlu **fframwaith sefydliadol** i'r DU a'r UE drafod ei weithredu, gan gynnwys Cyngor Partneriaeth, Pwyllgorau Arbenigol ar Fasnach a phwyllgorau Arbenigol (gan gynnwys nwyddau; mesurau SPS; a darpariaethau tegwch yn y farchnad). Mae **Llywodraeth Cymru yn mynd i'r** cyfarfodydd fel sylwedydd.

Cytundebau masnach

Llywodraeth y DU sy'n negodi cytundebau masnach â gwledydd eraill ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben.

Er enghraifft, mae cytundebau masnach rydd gydag **Awstralia** a **Seland Newydd** yn cyflwyno mynediad llawn heb dariff ar gyfer mewnfôrion amaethyddol (gan gynnwys cynhyrchion anifeiliaid) i'r DU, yn raddol dros nifer o flynyddoedd.

Mae'r ddau gytundeb yn cynnwys penodau ar les anifeiliaid. Maent yn cydnabod y gall pob parti benderfynu ar ei chyfreithiau a'i pholisïau ei hun ar les anifeiliaid, ac yn ymrwmo'r partïon i gydweithio mewn fforymau rhyngwladol ar hyrwyddo lles anifeiliaid.

Mae **Llywodraeth Cymru** a **rhai rhanddeiliaid wedi codi pryderon** y gallai cytundebau masnach arwain at gynydd mewn mewnfôrion o wledydd sydd â safonau iechyd a lles anifeiliaid gwahanol i'r DU neu is na rhai'r DU.

2. Y fframwaith cyffredin

Mae'r **fframwaith cyffredin dros dro** yn nodi sut y bydd y llywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd i wneud penderfyniadau am iechyd a lles anifeiliaid yn y cyd-destun newydd hwn y tu allan i'r UE. Rhoddir effaith i'r fframwaith gan Concordat a lofnodwyd gan Weinidogion. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y ddogfen fframwaith.

Mae Pwyllgor Craffu Tŷ'r Arglwyddi ar Fframweithiau Cyffredin wedi nodi **gwallau ac anghysondebau sylweddol** yn y fframwaith. Mae'r rhain yn ei gwneud yn fwy anodd darparu asesiad clir o'i oblygiadau. Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** y caiff gwallau eu cywiro yn y fersiwn derfynol.

Egwyddorion fframweithiau cyffredin

Yn 2017, cytunodd y llywodraethau ar egwyddorion o ran lle y dylid sefydlu fframweithiau cyffredin.

Mae'r fframwaith yn cadarnhau'r egwyddorion hyn, ac yn tynnu sylw at rai ohonynt fel rhai sy'n allweddol i iechyd a lles anifeiliaid, gan gynnwys:

- galluogi marchnad fewnol y DU i weithredu, gan gydnabod gwahaniaethau polisi;
- sicrhau y gall y DU negodi cytundebau masnach newydd a chytuniadau rhyngwladol, ymrwymo iddynt a'u rhoi ar waith a chydymffurfio â goblygiadau rhyngwladol;
- parchu setliadau datganoli ac atebolrwydd democrataidd y deddfwrfeydd datganoledig, a
- chynnal, fel isafswm, hyblygrwydd cyfatebol ar gyfer teilwra polisiau i anghenion penodol pob tiriogaeth fel y mae rheolau cyfredol yr UE yn ei ganiatáu;

Noda'r fframwaith hefyd fod y llywodraethau'n cytuno i ddilyn egwyddorion Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Ddatganoli 2013. Cwblhaodd y llywodraethau adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol ym mis Ionawr 2022, gan gytuno i greu strwythurau rhyngweinidogol newydd i gymryd lle Cyd-bwyllgor y Gweinidogion a diwygio'r broses o ddatrys anghydfodau rhynglywodraethol.

Egwyddorion ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid

Mae'r llywodraethau'n cytuno i **beidio â gwyro oddi wrth safonau sylfaenol mewn modd sy'n niweidiol i fioggiogelwch, lles neu farchnad fewnol y DU ar draws meysydd polisi perthnasol.**

Ystyr 'safonau sylfaenol' yw cyfraith yr UE a ddargedwir fel ar ddiwedd y cyfnod pontio ym Mhrydain Fawr, a safonau gofynnol presennol yr UE fel y maent yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r llywodraethau'n cytuno y dylent allu ymwahanu uwchlaw'r safonau presennol, ond y dylent hysbysu ei gilydd am benderfyniadau o'r fath er mwyn gallu canfod unrhyw **"ymwahanu niweidiol"** a mynd i'r afael â hynny.

Cwmpas

Mae'r fframwaith yn nodi bod **y gyfraith iechyd a lles anifeiliaid gyfan (nid cyfraith yr UE a ddargedwir yn unig)** o fewn ei gwmpas, oni bai bod y llywodraethau'n cytuno fel arall.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud mai'r rheswm am hyn yw oherwydd bod y mwyafrif o ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid yn gyfraith yr UE a ddargedwir, ac felly "ni fyddai'n gwneud synnwyr ymarferol cael strwythurau ar wahân o dan y Fframwaith ar gyfer trafodaethau a gwneud penderfyniadau ar gyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith iechyd a lles anifeiliaid nas dargedwir."

Mae hyn yn awgrymu y bydd y llywodraethau'n gwneud penderfyniadau ar y cyd ar bob polisi a deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid drwy'r fframwaith cyffredin, **hyd yn oed pan fyddent, cynt, wedi cael ymreolaeth i reoleiddio'n wahanol pan oedd y DU yn yr UE.**

Mae hyn yn wahanol i'r dull gweithredu mewn fframweithiau cyffredin eraill. Er enghraifft, mae'r **fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid** yn darparu y bydd newidiadau polisi lle mae cyfraith yr UE a ddargedwir eisoes yn caniatáu ymwahanu rhwng gwahanol rannau o Brydain Fawr yn disgyn y tu allan i gwmpas y fframwaith.

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am effaith hyn ar y ffordd y gall Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru arfer eu cymhwysedd. Ym mis Ebrill 2022, **dywedodd Llywodraeth Cymru** na fyddai'r fframwaith yn amharu ar allu Llywodraeth Cymru i wneud polisi neu ddeddfwriaeth ar wahân ar gyfer Cymru.

Bydd y fframwaith hefyd yn cwmpasu meddyginiaethau milfeddygol, er bod hwn wedi'i gadw yn ôl. Mae Llywodraeth y DU yn cadarnhau y bydd yn cynnal ymgynghoriad digonol gyda'r llywodraethau datganoledig ar faterion perthnasol a gedwir yn ôl, yn unol â **Memorandwm o Ddealltwriaeth ar Ddatganoli**. 2013.

Meysydd polisi cysylltiedig

Mae'r fframwaith yn cydnabod y bydd angen iddo ryngweithio â meysydd polisi lle mae fframweithiau cyffredin, ar **ddiogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid**, sootechneg, ac iechyd planhigion. Nid yw'n nodi'n fanwl sut y dylai'r gwahanol fframweithiau ryngweithio.

Nid yw'n ystyried a ddylai weithio ochr yn ochr â'r fframwaith cyffredin ar gyfer **diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd** neu sut y dylai wneud hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud:

Pan fydd materion neu benderfyniadau'n rhychwantu neu'n effeithio ar feysydd polisi eraill, p'un a oes ganddynt eu Fframweithiau Cyffredin eu hunain ai peidio, bydd swyddogion o fewn y pedair llywodraeth yn ymgysylltu â'u cymheiriaid i ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion ehangach a chydbwyso gwahanol ystyriaethau, neu'r gwahanol strwythurau gwneud penderfyniadau o fewn y gwahanol feysydd polisi.

3. Cydweithio

Rolau a chyfrifoldebau

Mae'r fframwaith yn sefydlu rhwydwaith o grwpiau 'trafod' a grwpiau 'gwneud penderfyniadau' y bydd y llywodraethau'n eu defnyddio i wneud penderfyniadau.

Mae **Pwyllgor Craffu Tŷ'r Arglwyddi ar Fframweithiau Cyffredin wedi beirniadu'r** fframwaith am ddarparu gwybodaeth gyfyngedig am yr hyn y bydd grwpiau trafod yn ei wneud ac am sut y bydd y gwahanol grwpiau'n rhyngweithio.

Mae atodiadau i'r fframwaith yn nodi cylchoedd gorchwyl y grwpiau gwneud penderfyniadau. Mae'r grwpiau'n cynnwys (gyda pheth amrywiad):

- swyddogion polisi o'r pedair llywodraeth;
- Prif Swyddogion Milfeddygol y pedair llywodraeth;
- cynrychiolwyr cyrff a rheoleiddwyr hyd braich perthnasol, megis yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, asiantaethau iechyd y cyhoedd, asiantaethau safonau bwyd, ac arolygiaethau iechyd pysgod; a
- chynrychiolwyr adrannau perthnasol Llywodraeth y DU (fel yr Adran Masnach Ryngwladol).

Mae'r fframwaith yn nodi cylchoedd gorchwyl y grwpiau gwneud penderfyniadau:

- nod y **Grŵp Polisi Clefydau Anifeiliaid** yw dod i gytundeb ar reolaethau'r DU a Phrydain ar gyfer clefydau anifeiliaid egsotig;
- nod y **Grŵp Polisi Iechyd Anifeiliaid Dyfrol** yw dod i gytundeb ar reolaethau'r DU a Phrydain ar gyfer clefydau anifeiliaid dyfrol;
- nod y **Grŵp Cyswllt Twbercwlosis (TB)** yw hyrwyddo cydweithredu ar reoli TB buchol; a

- nod y **Grŵp Polisi Lles Anifeiliaid** yw hwyluso'r broses o fabwysiadu dulliau cydgysylltiedig o ymdrin â lles anifeiliaid pan fo'r llywodraethau'n dymuno.

Bydd y grwpiau'n cyfarfod bob chwarter ac eithrio'r Grŵp Polisi Lles Anifeiliaid, a fydd yn cyfarfod yn fisol.

Os nad yw cytundeb yn bosibl ar lefel grŵp polisi, gellir uwchgyfeirio penderfyniadau i'r **Bwrdd Rhaglen Uwch Swyddogion Defra-DG**. Mae hyn yn dwyn ynghyd uwch swyddogion o Defra a'r llywodraethau datganoledig yn fisol.

Os oes angen, gellir uwchgyfeirio penderfyniadau o'r Bwrdd Rhaglen i'r **Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**.

Rhannu tystiolaeth a cheisio barn

Drwy'r fframwaith, mae'r llywodraethau'n cytuno ar ddulliau o gydweithio ar gyfraith a pholisi, gan ymrwymo i:

- rannu data a thystiolaeth yn rheolaidd;
- hysbysu ei gilydd o unrhyw faterion (gan gynnwys llunio polisiau, cynnig ar gyfer deddfwriaeth, cyhoeddiadau cyhoeddus ac ymatebion brys) cyn gynted ag y cânt eu hystyried, fel y gellir cynnal trafodaethau ar y cyd cyn gwneud penderfyniadau terfynol;
- gofyn am farn ei gilydd ar effaith penderfyniadau ar y llywodraethau eraill cyn gynted â phosibl;
- cynnal asesiadau risg (naill ai ar wahân neu ar y cyd), a rhannu canlyniadau asesu risg gyda phob parti; a
- seilio unrhyw ymwahanu polisi ar dystiolaeth a chyngor cyffredin.

Nid yw'r fframwaith yn ystyried sut y bydd y llywodraethau'n cydbwysu'r gofyniad i hysbysu ei gilydd am bolisiau cyn gynted ag y caiff ei ystyried gyda'r angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau.

4. Rheoli ymwahanu

Mae'r fframwaith yn nodi sut a phryd y bydd y llywodraethau'n penderfynu dilyn yr un rheolau, a phryd i ymwahanu.

Gwneud penderfyniadau am ymwahanu

Mae'r llywodraethau'n cytuno i ddatblygu dulliau polisi cyffredin. Os yw un o'r llywodraethau am ymwahanu, mae'r fframwaith yn nodi'r prosesau y mae'n rhaid eu dilyn:

- bydd y llywodraeth yn hysbysu ei gilydd am newidiadau polisi posibl yn gynnar, ac mewn pryd i gael trafodaethau ar y cyd am eu goblygiadau;
- cyn i un llywodraeth ymwahanu, rhaid i'r llywodraethau weld a allant gytuno ar ddull cyffredin sy'n lleihau ymwahanu tra'n dal i fodloni dymuniadau'r parti hwnnw;
- os yw llywodraeth yn dal i fod eisiau ymwahanu, dylai nodi pam mai dyma'r ffordd fwyaf addas o weithredu. Dylid cynnal asesiad o'r goblygiadau i farchnad fewnol y DU, negodi a gweithredu cytundebau rhyngwladol, a bioddioigelwch. Bydd swyddogion polisi a Phrif Swyddogion Milfeddygol yn ystyried effaith y newidiadau; ac
- os na all y llywodraethau gytuno a ddylid mabwysiadu'r un dull neu ymwahanu, gellir defnyddio'r broses datrys anghydfodau.

Rheoli effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU

Rhan o ddiben y fframwaith yw sicrhau gweithrediad marchnad fewnol y DU.

Mae **Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020** yn nodi egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau proffesiynol yn y gyfraith. Bwriad yr egwyddorion hyn yw sicrhau (yn gyffredinol) y gellir gwerthu neu awdurdodi nwyddau a gwasanaethau neu gymwysterau proffesiynol y gellir eu cydnabod mewn un rhan o'r DU mewn rhan arall.

Gallai egwyddorion mynediad i'r farchnad yn y Ddeddf gyfyngu ar effaith ymarferol deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid Cymru. Yn ystod hynt Bil Marchnad Fewnol y DU, **cododd Llywodraeth flaenorol Cymru bryderon** am egwyddorion mynediad i'r farchnad yn arwain at "ras i'r gwaelod" o ran safonau iechyd a lles anifeiliaid. Nid yw'r fframwaith yn cyfeirio o gwbl at y Ddeddf.

Enghraifft ddamcaniaethol: nwyddau

Mae'r egwyddor cydnabod cydfuddiannol ar gyfer nwyddau yn darparu y gellir gwerthu neu awdurdodi nwyddau sy'n tarddu o un rhan o'r DU neu a fewnforir i un rhan o'r DU mewn unrhyw ran arall.

Mae'r egwyddor hon yn ymdrin yn benodol â gofynion statudol sy'n ymwneud â:

- chynhyrchu nwyddau (gan gynnwys magu, trin a lladd anifeiliaid);
- gallu adnabod ac olrhain anifeiliaid; ac
- arolygu, ardystio ac awdurdodi (ac ati) nwyddau.

Gallai'r Senedd ddeddfu i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth olrhain ychwanegol gael ei chynnwys gyda chynhyrchion anifeiliaid penodol a gaiff eu gwerthu yng Nghymru.. Fodd bynnag, byddai'r egwyddor cydgydnabyddiaeth yn gymwys. O ganlyniad, gallai cynhyrchion anifeiliaid a ganiateir neu a fewnforir i unrhyw ran arall o'r DU barhau i gael eu gwerthu yng Nghymru heb y wybodaeth honno.

Mae'r Ddeddf yn nodi gwaharddiadau cyfyngedig o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer bygythiadau i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gwahardd deddfwriaeth sy'n gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn nwyddau o ran arall o'r DU, oni ellir ystyried y deddfwriaeth honno'n rhesymol fel ffordd angenrheidiol o gyflawni nod cyfyngedig. Mae diogelu bywyd planhigion, bywyd anifeiliaid a bywyd dynol wedi'i nodi fel nod cyfreithlon.

Mae gan Lywodraeth y DU bwerau i greu gwaharddiadau newydd o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad neu amrywio'r rhestr o nodau cyfreithlon drwy reoliadau. Mae'r bedair llywodraeth wedi cytuno ar **broses ar gyfer ystyried eithriadau i'r Ddeddf mewn meysydd fframwaith cyffredin, a chytuno i'r eithriadau hynny.** Nid yw'r fframwaith yn cyfeirio at y broses hon.

Rheoli ymwahanu o'r UE a Gogledd Iwerddon

O dan Brotocol Gogledd Iwerddon, bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i ddilyn cyfraith yr UE o ran iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r fframwaith yn nodi:

- wrth i Lywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU wneud penderfyniadau ar bolisi a rheoleiddio iechyd a lles anifeiliaid, bydd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cymryd rhan mewn trafodaethau a bydd ei barn yn cael ei hystyried; a
- pan fydd rheolau yng Ngogledd Iwerddon yn newid yn unol â'r UE, bydd y llywodraethau'n ystyried y newidiadau ac yn pennu ar unrhyw effeithiau neu gamau dilynol.

Mae hefyd yn nodi:

If Northern Ireland has to diverge in order to maintain parity with the EU the same review process will be followed and the same assessments are made as whether it would be in the best interests of GB to follow suit or to allow divergence.

Yn gynnar yn 2022, **croesawodd Pwyllgor Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Gogledd Iwerddon ar y pryd** y testun hwn, ond nododd bryderon ynghylch sut y byddai ymwahanu rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr o ganlyniad i'r Protocol yn cael ei reoli drwy'r fframwaith.

Mae'r fframwaith yn nodi bod barn **Cyd-bwyllgorau a Phwyllgorau Arbenigol yr UE-DU o dan y Cytundeb Ymadael** yn "allweddol" i asesu effaith unrhyw ymwahanu rhwng Prydain a Gogledd Iwerddon.

Os yw Gweinidogion Gogledd Iwerddon yn credu nad yw pryderon wedi cael sylw digonol, byddant yn gallu ymgysylltu â phroses datrys anghydfodau'r fframwaith.

Mae Gogledd Iwerddon eisoes wedi dechrau ymwahanu oddi wrth Brydain o ran cyfraith iechyd a lles anifeiliaid, gyda gweithredu **Cyfraith Iechyd Anifeiliaid** newydd yr UE o 2021.

Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** y bydd yn parhau i gadw golwg ar unrhyw newidiadau i gyfraith yr UE "drwy ein hymchwiliadau ein hunain a thrwy gydweithio â'r Partïon eraill," a bod y llywodraethau wedi cydweithio drwy'r fframwaith i fynd i'r afael â newidiadau i Reoliadau Iechyd Anifeiliaid yr UE drwy ddiwygio cyfraith ddomestig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn ystyried risgiau a manteision cadw i fyny â chyfraith yr UE fesul achos, a chymeradwyodd yr ymrwymiad gan bob llywodraeth yn y fframwaith na ddylid erydu safonau.

5. Rheoli'r rhwymedigaethau rhyngwladol

Rhan o ddiben y fframwaith yw sicrhau y gall y DU negodi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol.

Mae'r fframwaith yn nodi rhai ymrwymïadau i'r DU a llywodraethau datganoledig gydweithio ar negodi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol.

Mae'r llywodraethau hefyd yn cytuno i ymgynghori â'i gilydd a chytuno ar weithredu cytundebau rhyngwladol, gan ddweud mai "dull cyfunol" a gaiff ei ffafrio'n gyffredinol.

Mae'r llywodraethau'n cytuno y bydd y gwaith o lunio polisiau rhyngwladol yn seiliedig ar "y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Datganoli a'i Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol cysylltiedig" ac y byddant yn awtomatig yn defnyddio unrhyw Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol wedi'i ddiweddarau, a chanlyniadau ehangach y Cydadolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

Cafodd y **Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol** ei ddiweddarau ddiwethaf yn 2013; ni chafodd ei ddiwygio fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Nid yw'r Concordat yn adlewyrchu'n benodol rôl gynyddol Llywodraeth y DU o ran cytuno ar rwymedigaethau rhyngwladol ar ôl Brexit mewn meysydd a arferai fod o fewn cymhwysedd yr UE, megis masnach.

Sefydliad Masnach y Byd

Mae'r fframwaith yn nodi bod y DU wedi ymgymryd â rhwymedigaethau newydd fel aelod o Sefydliad Masnach y Byd ym Mhwyllgor SPS y Sefydliad. Mae'n datgan bod Defra yn datblygu prosesau i ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ar fesurau SPS ac i gymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgor.

Mae'r fframwaith yn nodi y bydd swyddogaethau cydgysylltu ac ysgrifenyddiaeth **Swyddfa'r DU ar gyfer Sicrwydd Masnach SPS** "yn sicrhau bod y partïon yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i gyflawni ein rhwymedigaethau rhyngwladol". **Mae Pwyllgor Craffu Tŷ'r Arglwyddi ar Fframweithiau Cyffredin wedi nodi** nad yw'r fframwaith yn glir o ran pwysigrwydd y Swyddfa i'w gweithrediad.

Mae **canllawiau** a gynhyrchwyd gan Swyddfa'r DU ar gyfer Sicrwydd Masnach SPS am ei gwaith yn nodi:

The four [Devolved] Administrations work closely together to develop policy relating to the UK's collective assurance system.

Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Mae'r fframwaith yn cydnabod y gall Pwyllgorau Arbenigol a Chyngor Partneriaeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu drafod iechyd a lles anifeiliaid. Fodd bynnag, mae materion o'r fath yn dod o fewn Pwyllgorau Arbenigol Masnach y Cytundeb, sydd â rolau gwahanol a phwerau mwy cyfyngedig na'i Phwyllgorau Arbenigol.

Mae'r fframwaith yn cadarnhau, lle mae agenda cyfarfod rhwng y DU a'r UE yn cynnwys eitem sy'n ymwneud â gweithredu mewn maes cymhwysedd datganoledig, fod Llywodraeth y DU yn cytuno i hwyluso presenoldeb y llywodraethau datganoledig ar lefel debyg i gynrychiolwyr Llywodraeth y DU. Cydgadeirydd y DU fydd â disgrisiwn terfynol. Dylai Llywodraeth y DU hefyd ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig i baratoi ar gyfer cyfarfodydd.

Cytundebau masnach ryngwladol

Mae'r fframwaith yn nodi y bydd yn caniatáu i'r llywodraethau "ganfod effaith masnach ryngwladol ar reoli ymwahanu polisi".

Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymo i gymryd barn y llywodraethau datganoledig ar iechyd a lles anifeiliaid mewn trafodaethau masnach yn brydlon, drwy "fforymau ymgysylltu sy'n benodol i fasnach".

Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** bod y fframwaith yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar safbwynt Llywodraeth y DU ar faterion polisi sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid mewn trafodaethau masnach, ac i uwchgyfeirio trafodaethau i lefel ryngweinidogol. **Nododd Gweinidog yr Economi** fod Llywodraeth Cymru wedi ymwneud â Chytundeb Masnach Rydd y DU-Awstralia mewn llythyr at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ym mis Mehefin 2022.

Yn flaenorol, ym mis Rhagfyr 2021, **mae wedi dweud** ei fod yn "siomedig" ei bod yn ymddangos na chafodd sylwadau Llywodraeth Cymru am effaith y cytundeb masnach rydd rhwng y DU ac Awstralia ar safonau lles anifeiliaid eu hystyried.

Mae'n **rhaid i Lywodraeth y DU gyflwyno adroddiad** ynghylch a yw cytundebau masnach penodol yn gyson ag amddiffyniadau statudol ar fywyd ac iechyd anifeiliaid, wedi'i lywio gan y **Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth**.

6. Osgoi a datrys anghydfodau

Yn y fframwaith, mae'r llywodraethau'n cytuno i geisio datrys anghytundebau cyn gynted â phosibl ar lefel swyddogol, a dim ond defnyddio prosesau datrys anghydfodau unwaith y bydd llwybrau arferol wedi'u disbyddu.

Gallai anghydfodau godi os nad yw'r llywodraethau'n cytuno a ddylid mabwysiadu'r un dull o ymdrin â chyfraith a pholisi neu ymwahanu, neu os yw'r llywodraethau'n anghytuno ynghylch a yw'r egwyddorion a'r prosesau a nodir yn y fframwaith yn cael eu dilyn.

Swyddogion mewn grwpiau polisi fydd yn trafod anghytundebau yn gyntaf. Os nad oes cytundeb, bydd Bwrdd Rhaglen Uwch Swyddogion Defra-DG yn ystyried yr anghydfod. Os nad oes cytundeb o hyd, gellir cyfeirio'r anghydfod at Weinidogion yn y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Yn olaf, gellir uwchgyfeirio'r anghydfod i "brosesau rhynglywodraethol priodol". Ym mis Ionawr 2022, **cytunodd y llywodraethau** ar broses datrys anghydfod rhyng-weinidogol newydd fel rhan o'r Adolygiad o Berthynas Rynglywodraethol. **Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** fod hyn yn gam arloesol.

Mae'r llywodraethau wedi cytuno y dylid gohirio camau gweithredu sy'n destun anghytuno neu anghydfod nes y caiff ei ddatrys fel arfer. Er eu bod wedi cytuno y dylid datrys anghydfodau'n brydlon, ni phennir unrhyw amserlenni. Gallai hyn arwain at oedi wrth wneud penderfyniadau. Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud:**

Mae gohirio unrhyw gamau gweithredu sy'n destun anghydfod yn rhan gytûn o'r mecanwaith datrys anghydfodau yn y fframweithiau, ond byddai'n dibynnu ar yr achos gan y gallai natur clefydau olygu bod gohirio camau gweithredu nes y ceir datrysiad yn gadael risgiau heb eu lliniaru.

Nid yw'r fframwaith yn darparu ar gyfer hysbysu seneddau neu randdeiliaid am anghydfodau. Fodd bynnag **mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo** i hysbysu'r Senedd am anghydfodau a gaiff eu huwchgyfeirio i Weinidogion.

7. Monitro, adolygu a diwygio

Mae'r llywodraethau wedi cytuno y dylai'r Grŵp Polisi Clefydau Anifeiliaid gynnal adolygiad blynyddol cychwynnol o'r fframwaith flwyddyn ar ôl iddo gael ei weithredu'n llawn.

Bydd y Grŵp yn adrodd yn fewnol ar ganlyniad yr adolygiad ac yn cynnig pa mor aml y dylid cynnal adolygiadau pellach.

Os bydd y Grŵp yn cytuno, gallai gomisiynu panel annibynnol i adolygu'r modd y caiff y fframwaith ei weithredu. Os yw llywodraeth yn dymuno diwygio unrhyw elfen o'r fframwaith, dylai godi hyn gyda'r Grŵp, neu adolygydd penodedig. Mae Pwyllgor Craffu Tŷ'r Arglwyddi ar Fframweithiau Cyffredin wedi awgrymu bod y fframwaith yn **anghyson** yma o ran rolau'r Grŵp a'r adolygydd penodedig.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o fframweithiau cyffredin eraill, nid yw'r fframwaith yn nodi testun safonol ar sut y dylid agor adolygiadau a chytuno ar welliannau.

8. Tryloywder ac atebolrwydd

Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** bod rhanddeiliaid wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar grynodedb o'r fframwaith ym mis Tachwedd 2020. Roedd ymatebion gan rhanddeiliaid yn "gyfyngedig iawn".

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd yn **ystyried y fframwaith**. Fe wnaeth **y Pwyllgor ymgynghori** ar fframweithiau cyffredin o fewn ei gylch gorchwyl yn gynnar yn 2022. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, **croesawodd RSPCA Cymru y fframwaith** fel cyfle i gydgyssylltu'n well rhwng llywodraethau'r DU a'r llywodraethau datganoledig. Fodd bynnag, rhybuddiodd y dylai'r fframwaith weithredu'n dryloyw, na ddylai gyfyngu ar lywodraeth sy'n dymuno gwella safonau lles anifeiliaid, ac ni ddylai gyfyngu ar bŵer seneddwyr nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth i gyflwyno cynigion ar gyfer newidiadau i gyfraith iechyd a lles anifeiliaid.

Mae pwyllgorau mewn seneddau ledled y DU hefyd wedi cynnal gwaith craffu ar y fframwaith cyffredin. Mae **Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin** a **Phwyllgor Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Gogledd Iwerddon** wedi codi pryderon am yr ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran y fframwaith, ac mae **Pwyllgor Craffu Tŷ'r Arglwyddi ar Fframweithiau Cyffredin** wedi galw ar y llywodraethau i ymrwymo i ddiweddarau'r

seneddau yn rheolaidd. Disgwylir i **Bwyllgor Materion Gwledig, yr Ynysoedd a'r Amgylchedd Naturiol** Senedd yr Alban hefyd ystyried y fframwaith.

Nid oes unrhyw ymrwymiadau i roi rôl i seneddau o ran monitro'r modd y caiff y fframwaith ei weithredu na'r gwaith o graffu ar welliannau. Dywed y fframwaith y caiff y llywodraethau ddefnyddio trydydd partïon i gynghori ar adolygu a diwygio'r fframwaith. Gallai hyn gynnwys cyrff y llywodraeth neu randdeiliaid allanol. Ym mis Mawrth, **cytunodd y Cwnsler Cyffredinol** mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i hysbysu'r Senedd a rhanddeiliaid pan gaiff fframwaith cyffredin ei adolygu, ac ystyried eu hargymhellion cyn i'r broses adolygu ddod i ben.

Nid oes unrhyw ymrwymiad i adroddiadau gael eu cynhyrchu na'u cyhoeddi ar y modd y caiff y fframwaith ei weithredu. Ym mis Tachwedd 2021, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** bod y bedair llywodraeth wedi cytuno i adrodd yn y dyfodol i seneddau ar fframweithiau cyffredin.